Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 14/09/21 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol: Y Cynghorwyr A.Hopcyn, E.R.Hughes, D.L.Jones, E.Lovgreen (Is-gadeirydd – Yn y Gadair), M.Sarnacki, R.Thomas

---

1.Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr W.L.Davies, K.Jones

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim

4. Cystadleuaeth Garddio

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod.

Nododd y Clerc:

(1) Bod y Pwyllgor Adloniant wedi trafod y Gystadleuaeth Garddio yn ei gyfarfod ar y 27ain o Orffennaf ac wedi penderfynu fel a ganlyn:

"Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Y dylid edrych ar gategori "highly commended".
(2) Argymell i'r Cyngor Llawn y dylai'r Seremoni Gwobrwyo gymryd lle yn ystod mis Medi, fel Seremoni ar wahân i'r Cyngor Llawn, yn Ystafell Peblig, gan gydymffurfio gyda Rheoliadau Covid-19.
(3) Y dylid gofyn i Peter Garlick gyflwyno'r gwpan am y stryd orau, a diolch iddo am ei garedigrwydd.
(4) O 2022 y dylid creu categori Gardd Gymunedol, fyddai'n cynnwys lleoedd fel Plas Maesincla."

(2) Roedd y Noson Wobrwyo yn wreiddiol i fod ar y 16eg o Fedi ond bydd yn rhaid pennu noson arall cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
(3) Bod Peter Garlick wedi dweud y bydd rhestr yr enillwyr yn barod erbyn diwedd yr wythnos hon.

Penderfynwyd nodi'r uchod a rhannu gwybodaeth ar Facebook pan fydd yr amser yn dod o ran cystadleuaeth y flwyddyn nesaf (unfrydol).

5. Noson Tân Gwyllt

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod.

Nododd y Clerc:

(1) Bod y Cyngor Llawn wedi penderfynu ei fod yn hapus i ddigwyddiadau gymryd lle, os yw'n cydymffurfio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru.
(2) Ei fod wedi bod mewn cysylltiad efo cynrychiolydd o'r Llewod o ran cynnal y Noson Tân Gwyllt eleni. Roedd y cynrychiolydd wedi bod mewn cysylltiad efo Rheolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd, ac yn ffyddiog y gallasai'r digwyddiad gymryd lle.
(3) Er bod y sefyllfa yn well o ran Covid, gallasai ddirywio'n sydyn unwaith eto.
(4) Bod y Cyngor Llawn wedi penderfynu fel a ganlyn yn ei gyfarfod ar y 7fed o Fedi:

"Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Cefnogi'r Noson Tân Gwyllt, sy'n cael ei drefnu gan y Llewod, a gofyn i'r Clerc gael trafodaeth efo nhw o ran sicrhau fod y mesurau diogelwch mewn lle.
(2) Y dylid cael sicrwydd gan y Llewod fod y camau cyfreithiol wedi eu cymryd, bod yr asesiadau risg mewn lle a hefyd o ran y trefniadau i'w talu."

(5) Yn dilyn hyn ei fod wedi cyfarfod gyda chynrychiolydd o'r Llewod er mwyn sicrhau fod eu trefniadau mewn lle.
(6) O ran yr yswiriant ei fod wedi cysylltu gyda Zurich, ac, er nad oedd Zurich yn darparu yswiriant ar gyfer Covid, roedd y digwyddiad Tân Gwyllt yn cael ei gyfro gan Public Liability Insurance y Cyngor os rydym yn sicrhau fod pob gofal wedi ei gymryd a bod canllawiau Llywodraeth Cymru'n cael eu dilyn.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

6. Sul y Cofio

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn dechrau cynllunio ar gyfer Sul y Cofio.

Nododd y Clerc:

(1) Bod y Pwyllgor Adloniant wedi trafod Sul y Cofio yn ei gyfarfod ar y 27ain o Orffennaf ac wedi penderfynu fel a ganlyn:

"Penderfynwyd argymell y dylai Sul y Cofio cymryd lle mor agos ag oedd bosib i'r drefn arferol, os yw'n cydymffurfio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru o ran Covid-19 (unfrydol)."

(2) Ei fod wedi trafod yn fras efo'r Cynghorydd Keith Jones ac efo Sian Ellis-Williams o Gyngor Gwynedd a phenderfynu dechrau trefnu nawr ar y sail ein bod yn mynd yn ôl i drefniadau 2019.
(3) Ei fod hefyd wedi holi Unllais Cymru ond nad oedd canllawiau wedi dod i law oni bai'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru.
(4) Yn ogystal ag hyn ei fod yn syniad fod y gwasanaeth yn cael ei ffilmio.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

7. Nadolig

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn gofyn barn yr aelodau am y ffordd ymlaen o ran y trefniadau Nadolig.

Nodwyd:
(1) Bod angen dechrau meddwl am drefniadau'r Nadolig.
(2) Bod y cynllun o ran y gwaith i osod y goleuadau Nadolig gan gwmni Lite Ltd ar waith, a bod caniatâd wedi ei dderbyn gan berchnogion adeiladau er mwyn gosod "anchor bolts" ar yr adeiladau ac ymestyn y goleuadau Nadolig i bendraw Stryd y Llyn.
(3) Bydd y Noson Nadoligaidd yn cymryd lle ar nos Iau, yr 2il o Ragfyr eleni, pan fydd y goeden Nadolig yn cael ei throi ymlaen. Gan fod pethau wedi bod yn dra gwahanol yn 2020, un opsiwn fyddai dilyn yn fras y trefniadau ar gyfer Nadolig 2019.

Trafodwyd gwahanol opsiynau ar gyfer 2021.

Penderfynwyd argymell y trefniadau canlynol ar gyfer 2021:

- **Troi'r goeden Nadolig ymlaen ar y Maes ar yr 2il o Ragfyr.**
- **Gofyn i Ysgol Syr Hugh Owen i gymryd rhan ar y Maes efo 3 neu 4 Carol.**
- **Gwahodd corau lleol i ddod i'r Maes.**
- **Peidio â chynnal gorymdaith i Gapel Seilo a Chyngerdd yn y Theatr efo ysgolion cynradd y dref.**
- **Cynnal gorymdaith efo "lanterns" o gwmpas y Maes o'r Cei Llechi tuag at y goeden.**
- **Cynnal Cystadleuaeth Ffenestri Siopau a Thai.**
- **Y Maer i greu rhestr fer efo Meiri eraill.**
- **Peiriant eira tu allan i'r Institiwt a Siôn Corn ger Galwch Acw.**
- **Cydweithio efo Hwb – cyfle i siopau agor yn hwyrach ar y noson.**
- **Llogi'r sgrin fawr ar y Maes ar y penwythnos cyn y Nadolig - recordio neges gan y Maer / Clerc ac ysgolion lleol yn canu.**
- **Trefnu ffotograffydd i dynnu lluniau o'r holl weithgareddau Nadolig ar gyfer y wefan ac yn y blaen.**
- **Cynnal cystadleuaeth i ddisgyblion ysgol i gynllunio lantern efo deunyddiau wedi eu hail-gylchu, gan edrych ar gael artist lleol i gynghori.**

Gorffennodd y cyfarfod am 7.00 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____